

Ribociclib gyda fulvestrant ar gyfer trin canser datblygedig y fron sy'n dderbynnnydd hormonau positif, HER2- negyddol

14 Awst 2019

Mae ribociclib (Kisqali), gyda fulvestrant, ar gael drwy'r [Gronfa Cyffuriau Canser](#). Mae'n opsiwn posibl i oedolion â chanser y fron sy'n ddatblygedig yn lleol neu'n fetastatig lle mae'r canlynol yn gymwys:

- mae'r canser yn dderbynnnydd hormonau positif ac yn dderbynnnydd ffactor twf epidermol pobl 2 (HER2)-negatif ac
- mae wedi'i drin gyda therapi endocrin yn flaenorol ac
- os mai exemestane ynghyd ag everolimus fyddai'r dewis amgen mwyaf priodol yn hytrach nag atalydd cinas 4 a 6 sy'n ddibynnol ar cyclin.

Mae mwy o dystiolaeth ar ribociclib yn cael ei chasglu, hyd at fis Rhagfyr 2020. Ar ôl hyn, bydd NICE yn penderfynu a fydd yn argymhell y dylid ei ddefnyddio ar y GIG ac yn diweddarau'r canllawiau. Bydd ar gael drwy'r Gronfa Cyffuriau Canser tan hynny.

Os nad ydych yn gymwys i gael ribociclib, ond eich bod eisoes yn ei gymryd, dylech allu parhau nes y byddwch chi a'ch meddyg yn penderfynu ar yr adeg orau i roi'r gorau i'w gymryd.

A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Darllenwch ragor am [wneud penderfyniadau am eich gofal](#).

Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?

- Beth yw'r risgiau neu'r sgil-ffeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

Gwybodaeth a chymorth

Gall [gwefan y GIG](#) fod yn lle da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- [Breast Cancer Now](#), 0808 800 6000
- [Ymchwil Canser y DU](#), 0808 800 4040
- [Cymorth Canser Macmillan](#), 0808 808 000

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich grŵp [Gwarchod Iechyd](#) lleol.

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN 978-1-4731-3479-9